



Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch

Cyfarfod rhif cant ac wyth o'r Bwrdd Cyfarwyddwyr

Cofnodion a gadarnhawyd y cyfarfod ar 14 Mehefin 2018, 13.45-15.30

Busnes agored

Presennol

Aelodau: Mr Christopher Banks (Cadeirydd) Mr Stephen Criddle
Dr Vanessa Davies Mr Amatey Doku
Ms Linda Duncan Ms Sara Drake
Yr Athro Maria Hinfelaar Mr Oliver Johnson
Yr Athro Craig Mahoney Yr Athro Denise McAlister
Yr Athro Andrew Wathey Mr Craig Watkins
Yr Athro Philip Winn

Ymddiheuriadau

Aelodau: Yr Athro Joy Carter Yr Athro Tim McIntyre-Bhatty
Mr Philip Wilson

Yn bresennol

Swyddogion: Mr Douglas Blackstock (Prif Weithredwr)
Miss Lavinia Blackett
Mrs Natalie Haines
Mr Ian Kimber
Mr Will Naylor
Ms Rowena Pelik
Mrs Liz Rosser

Cynrychiolwyr aelodau'r cwmni: Mr Alex Bols (GuildHE)
Mr William Hammonds (Prifysgolion y DU)

Arsyllwyr: Mr Scott Court (Y Swyddfa Myfyrwyr)
Mr Ben Elger (Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol)
Mr Alex Proudfoot (Independent HE)
Ms Arti Saraswat (Cymdeithas y Colegau)
Mr Gareth Lindop (Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr)

Croeso ac ymddiheuriadau

1. Croesawodd y Cadeirydd aelodau, cynrychiolwyr aelodau'r cwmni ac arsyllwyr i'r cyfarfod, a nododd yr ymddiheuriadau.

Cworwm a buddiannau

Cworwm a buddiannau (eitem 2)

2. Cytunwyd bod cworwm yn y cyfarfod.

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mawrth 2018 (eitem 12, BD-2018-34)

3. Cytunwyd bod cofnodion busnes agored y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mawrth 2018 yn gofnod ffyddlon a chywir o'r cyfarfod, yn amodol ar ychwanegu enw'r Athro Joy Carter at y rhestr bresenoldeb.
4. Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion nad oeddent ar yr agenda beth bynnag.

Yr eitemau i'w trafod

Adroddiad y Prif Weithredwr (eitem 14, BD-2018-35)

5. Ystyriodd y Bwrdd adroddiad y Prif Weithredwr ar ddatblygiadau diweddar mewn polisïau. Tynnodd y Prif Weithredwr sylw'r aelodau at y materion a ganlyn:
 - Yn dilyn cyfarfodydd diweddar rhwng Prif Weithredwyr QAA a'r Swyddfa Myfyrwyr yn Lloegr, roedd y ddau sefydliad yn y broses o gwblhau cytundeb dynodi oedd yn dderbyniol i bawb.
 - Ym mis Ebrill 2018, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad technegol ar y diwygiadau a gynigwyd ganddi i'r sector hyfforddiant ac addysg ôl-orfodol. Gofynnodd QAA am farn ei Phwyllgor Cynghori ar Strategaeth Cymru ac roedd wrthi'n trafod y cynigion hyn gyda rhanddeiliaid eraill, cyn cyflwyno ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad erbyn y dyddiad cau ym mis Gorffennaf 2018.
 - Cynhaliwyd Cynhadledd Weinidogol 2018 Ardal Addysg Uwch Ewrop ym Mharis ym mis Mai, a daeth cynrychiolwyr o 78 o wledydd iddi. Gwahoddwyd QAA i ymuno â dau grŵp o gynrychiolwyr o'r DU: y Prif Weithredwr yn rhan o'r grŵp i gynrychioli'r DU gyfan dan arweiniad Sam Gyimah AS, y Gweinidog Gwladol dros Brifysgolion, Gwyddoniaeth, Ymchwil ac Arloesi; a Rowena Pelik, Cyfarwyddwr Materion Rhyngwladol a'r Cenhedloedd, yn rhan o'r grŵp i gynrychioli'r Alban dan arweiniad Shirley-Anne Somerville ASA, Gweinidog Llywodraeth yr Alban dros Addysg Bellach, Addysg Uwch a Gwyddoniaeth.
 - Cyhoeddwyd y fersiwn diwygiedig o'r Disgwyliadau, yr Arferion Craidd a'r Arferion Cyffredin sy'n rhan o God Ansawdd Addysg Uwch y DU ym mis Mawrth 2018. Roedd cam nesaf y gwaith yn mynd rhagddo erbyn hyn i ddatblygu fersiynau diwygiedig o'r Cyngor a'r Cyfarwyddyd sy'n tanategu'r Cod Ansawdd. Yn rhan o'r gwaith hwn, cynhaliodd QAA ddeg digwyddiad ymgynghori ledled y DU yn ystod misoedd Ebrill a Mai 2018, a daeth mwy na 550 o bobl i'r rhain. Byddai'r fersiynau drafft yn cael eu llunio yn ystod yr haf a dechrau'r hydref i'w trafod gan y Pwyllgor Sefydlog Asesu Ansawdd i'r DU ym mis Hydref 2018, cyn lansiad ffurfiol y Cod Ansawdd wedi'i ddiwygio'n llawn yn hwyr ym mis Tachwedd 2018.

Adroddiad am Gynhadledd Flynyddol 2018 (eitem 15, BD-2018-36)

6. Derbyniodd y Bwrdd adroddiad am ganlyniadau Cynhadledd Flynyddol 2018 QAA - "Uwchgynhadledd Ansawdd Addysg Uwch y DU: Sicrhau Effaith drwy Arloesi" - a gynhaliwyd ar 24 a 25 Ebrill yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yng Nghaerdydd.
7. Cadarnhaodd Mrs Rosser bod 338 o gynrychiolwyr wedi mynychu'r gynhadledd, a rhoddodd drosolwg o'r adborth a dderbyniwyd. **Ystyriodd** y Bwrdd yr adborth cadarnhaol am y gynhadledd a chytunodd i argymhell bod y gynhadledd yn parhau'n rhan o galendr QAA ar gyfer 2018-19.
8. Rhoddodd yr aelodau adborth cadarnhaol am drefniant a defnyddioldeb y gynhadledd, ond gofynnwyd i'r trefnwyr ystyried rhai mân newidiadau i'r fformat er mwyn osgoi cael cyn lleied o bobl yn y sesiwn olaf am fod llawer wedi gadael yn gynnar.

Cynnig amlinellol am sefydlu Canolfan Sicrhau Gonestrwydd Academaidd i'r DU (eitem 16, BD-2018- 37)

9. Cyflwynodd Mr Naylor bapur am y cynnig amlinellol i sefydlu Canolfan Sicrhau Gonestrwydd Academaidd i'r DU o fewn QAA. Nod trosfwaol y Ganolfan fyddai darparu dull cydlynol a chydweithredol o ymdrin â'r heriau sy'n wynebu'r sector mewn perthynas â sicrhau gonestrwydd academaidd. Rhoddodd Mr Kimber adroddiad ar lafar am gyfarfod bord gron a gynhaliwyd gan QAA lle bu rhanddeiliaid allweddol yn trafod materion sy'n ymwneud â gonestrwydd academaidd a thwyll academaidd.
10. Ystyriodd y Bwrdd y risgiau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â sefydlu'r Ganolfan, y manteision posibl i fyfyrwyr, ac awdurdodaeth a chwmpas y Ganolfan. Pwysleisiodd y Bwrdd bod angen sicrhau y byddai pob un o bedair gwlad y DU yn cymryd rhan gydradd mewn trafodaethau am ddatblygu'r Ganolfan ar gam cynnar.
11. Wedi iddynt ystyried y mater, roedd y Bwrdd a'r arsyllwyr oedd yn bresennol yn cefnogi datblygiad y Ganolfan. **Cytunodd** y Bwrdd y dylai swyddogion ddatblygu achos busnes llawn ar gyfer y Ganolfan i dderbyn ystyriaeth mewn un o'r cyfarfodydd nesaf, a pharhau i agor trafodaethau gydag aelodau, cyllidwyr, tanysgrifwyr a rhanddeiliaid eraill ynghylch ei greadigaeth.

Sicrhau Darpariaeth Addysg Drawswladol y DU (eitem 17, BD-2018-38)

12. Cyflwynodd Ms Pelik bapur am sicrhau darpariaeth addysg drawswladol y DU. Dywedodd bod QAA wedi gwneud archwiliadau tramor fesul gwlad (sef yr Adolygiad Addysg Drawswladol erbyn hyn) i ategu'r prosesau adolygu cartref. Fodd bynnag, byddai'r contract i'r DU gyfan ar gyfer adolygu darpariaeth addysg drawswladol ac ymgysylltu â gweithgareddau strategol rhyngwladol yn y maes yma'n dod i ben ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2017-18. Dywedodd Ms Pelik wrth y Bwrdd y byddai hyn yn effeithio ar yr Adolygiad Addysg Drawswladol sydd ar y gweill ym Malaysia na fyddai bellach yn cael ei ariannu o ganlyniad i'r newidiadau hyn. Dywedwyd wrth y Bwrdd bod QAA yn gweithio'n agos â'r sector i ystyried opsiynau ynglŷn â gwahanol ffordd o sicrhau darpariaeth addysg drawswladol y DU yng nghyd-destun y newidiadau.
13. Yn ei rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Sefydlog Asesu Ansawdd i'r DU (UKSCQA), dywedodd yr Athro Wathey bod y Pwyllgor wedi cyfranogi, ac y byddai'n parhau i gyfranogi, yn y maes yma. Sicrhaodd Mr Court y Bwrdd fod darpariaeth addysg drawswladol wedi'i chynnwys yn y fframwaith rheoleiddio i Loegr a dywedodd y byddai'n fodlon cymryd rhan mewn trafodaethau pellach.
14. **Ystyriodd** y Bwrdd y papur a chytunodd y dylid datblygu, ar y cyd gyda'r sector, dull cydweithredol o sicrhau ansawdd darpariaeth addysg drawswladol y DU.

Penodiadau i'r Bwrdd a Phwyllgorau'r Bwrdd (eitem 18, BD-2018-39)

15. Ar ôl cyflwyniad gan Mrs Haines, penderfynodd y Bwrdd **gymeradwyo**'r penodiadau canlynol i'r Bwrdd ar argymhelliad y Pwyllgor Penodiadau a Chyflogau:
- Penodi** Mr Matt Adie, yn amodol ar eirdaon cadarnhaol, yn aelod annibynnol o blith y myfyrwyr yn ôl Erthygl 46 (iv) am dymor o flwyddyn o 21 Mehefin 2018 (hyd at 21 Mehefin 2019). Bydd Mr Adie yn cymryd lle Mr Robert Cashman, a bydd, drwy rinwedd ei benodiad i'r Bwrdd, hefyd yn cymryd rôl cyd-gadeirydd y Pwyllgor Myfyrwyr sy'n Cynghori QAA. Astudiodd Mr Adie Astudiaethau Busnes a Chyfrifiadureg gydag Addysg Broffesiynol ym Mhrifysgol Stirling ac roedd yn Is-lywydd Addysg Undeb y Myfyrwyr. Roedd yn aelod o banel maes astudio'r Swyddfa Myfyrwyr, ac hefyd yn Adolygwr sy'n Fyfyriwr ac yn arweinydd Thema'r Myfyrwyr i QAA Scotland.
 - Ailbenodi** Mr Amatey Doku, yn ôl Erthygl 46 (v) yn y categori aelodaeth 'a enwebir gan Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr', am ail dymor, sef ei dymor olaf, o un flwyddyn o 1 Gorffennaf 2018 (hyd at 1 Gorffennaf 2019).
16. Yn ogystal, **cydnabu**'r Bwrdd yr ailbenodiadau i'r Bwrdd a'r ymddeoliadau o'r Bwrdd, fel a ganlyn:
- Ailbenodwyd yr Athro Andrew Wathey ar y cyd gan y cyrff cynrychioli (Prifysgolion yr Alban, Prifysgolion y DU, Prifysgolion Cymru a GuildHE) yn ôl Erthygl 46 (i), am ail dymor, sef ei dymor olaf, o dair blynedd (hyd at 1 Medi 2021)
 - Ailbenodwyd Mr Philip Wilson yn aelod annibynnol o blith y Darparwyr Amgen yn ôl Erthygl 46 (vii) am dymor arall o ddwy flynedd hyd at 21 Mehefin 2020
 - Bydd yr Athro Tim McIntyre-Bhatty, a benodwyd ar y cyd gan y Cyrff Cyllido, yn cyrraedd diwedd ei dymor mewn swydd (ar 10 Medi 2018).
17. Penderfynodd y Bwrdd **gymeradwyo**'r penodiadau canlynol i bwyllgorau:
- i'r Pwyllgor Cynghori ar Bwerau Dyfarnu Graddau
 - Penodwyd Dr Vanessa Davies o 21 Mehefin 2018 hyd at 21 Mehefin 2021
 - Penodwyd Mr Luke Myer yn gynrychiolydd y myfyrwyr o 21 Mehefin 2018 hyd at 21 Mehefin 2019. Mr Luke Myer yw Is-lywydd Cynrychiolaeth Academiaidd Undeb y Myfyrwyr Prifysgol Edge Hill yn Swydd Gaerhirfryn.
 - Penodwyd Ms Sara Drake i'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risgiau o 21 Mehefin 2018 hyd at 21 Mehefin 2021
 - Penodwyd Mr Stephen Criddle i'r Pwyllgor Penodiadau a Chyflogau o 21 Mehefin 2018 hyd at 21 Mehefin 2021
 - Penodwyd Ms Gemma Jones i'r Pwyllgor Cynghori ar Strategaeth QAA Scotland o 21 Mehefin 2018 hyd at 21 Mehefin 2019
 - I'r Pwyllgor Cynghori ar Strategaeth QAA Cymru
 - Penodwyd Ms Gwyneth Sweatman (llywydd newydd UCM Cymru) i Bwyllgor QAA Cymru o 1 Gorffennaf 2018 hyd at 30 Mehefin 2019
 - Penodwyd Mr Iestyn Davies (Prif Weithredwr Colegau Cymru) i Bwyllgor QAA Cymru o 21 Gorffennaf 2018 hyd at 21 Gorffennaf 2021.

Eitemau gohebu

Diweddariad am Barodrzydd ar gyfer y RhDDC (eitem 20, BD-2018-41)

18. Rhoddodd Miss Blackett y manylion diweddaraf i'r Bwrdd am y camau a gymerwyd i sicrhau cydymffurfiaid â gofynion statudol y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (RhDDC).
19. Gweithredwyd rhaglen gynhwysfawr i baratoi ar gyfer y RhDDC ac roedd y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risgiau'n monitro hon ar ran y Bwrdd. Ers yr adroddiad am barodrzydd i'r Bwrdd ym mis Mawrth, cafwyd nifer o ddatblygiadau allweddol, oedd yn cynnwys cyflwyno hyfforddiant am y RhDDC i'r holl staff, adolygu pob un o'r polisïau a gweithdrefnau diogelu data er mwyn sicrhau cydymffurfiaid â'r gofynion. Hefyd, archwiliwyd yr holl ddata personol ledled yr Asiantaeth ac ailddilyswyd y caniatadau yn unol â gofynion y RhDDC.
20. I gefnogi'r Bwrdd yn ei gyfrifoldeb am ddatblygu diwylliant o ymrwymiad i fod yn agored sy'n hysbysu holl weithgareddau'r Asiantaeth, roedd QAA wedi mabwysiadu a gweithredu agwedd 'Privacy by Design', sy'n gofyn ystyried yr effaith ar hawliau'r unigolyn cyn gweithredu unrhyw weithgaredd newydd sy'n cynnwys prosesu data personol.
21. Cadarnhaodd Miss Blackett beth fyddai'r camau nesaf a'r systemau a gyflwynwyd i gefnogi a monitro gallu QAA ymhellach i gydymffurfio â'r gofynion, gan gynnwys archwiliad mewnol yn ymwneud â'r RhDDC sydd wedi'i amserlennu ar gyfer 2018-19. **Ystyriodd** y Bwrdd farn y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risgiau bod y sefydliad yn gweithredu mesurau digonol i sicrhau cydymffurfiaid â'r gyfraith ddiwygiedig.

Adroddiadau ar gyfer Tymor 2 - Yr Adroddiad Ariannol (eitem 20a, BD-2018-41)

22. Cyflwynodd Mrs Rosser yr Adroddiad Ariannol ar gyfer Tymor 2. Roedd yr adroddiad yn nodi'r sefyllfa ariannol hyd 31 Mawrth 2018 a'r sefyllfa a ragfynegydd hyd 31 Gorffennaf 2018.
23. Cydnabu'r Bwrdd yr incwm ychwanegol oedd wedi gyrru'r gwarged ychwanegol, ac er gwaethaf rhai costau untro annisgwyl, roedd y mesurau a weithredwyd yn ystod tymor 2 wedi sicrhau bod y gwarged gweithredu a ragfynegydd ar gyfer y flwyddyn gyfan wedi'i bennu fel £234k erbyn hyn, sef £38k yn uwch na'r swm oedd yn y gyllideb, a gwelliant ar y swm a ragfynegydd ar gyfer tymor 1, sef £132k.
24. Y gwarged gweithredu ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth oedd £84k o'i gymharu â'r gwarged a ragfynegydd ar gyfer tymor 1, sef 126k, sy'n ddiffyg o £42k. Ni ystyrid y diffyg hwn yn un parhaol ond yn ganlyniad i wahaniaethau amseriad gweithgareddau rhwng y sefyllfa a ragfynegydd a'r sefyllfa wirioneddol.
25. Darparodd Mrs Rosser ragor o fanylion oedd yn tynnu sylw at drosolwg o'r newidiadau nodedig a'r camau gweithredu a gymerwyd gan y Cadeirydd ar ran y Bwrdd yn ymwneud â chontractau diwygiedig rhwng QAA a'r Swyddfa Myfyrwyr.
26. Aeth y Bwrdd ati i:
 - a) **ystyried** yr adroddiad ar sefyllfa ariannol bresennol QAA a'r rhesymau allweddol y tu cefn i unrhyw amrywiadau arwyddocaol
 - b) **ystyried** y sefyllfa a ragfynegydd hyd at 31 Gorffennaf 2018
 - c) **ystyried** diweddariad y trysorydd a **chymeradwyo** ychwanegu Mrs Stephanie Stephenson, Pennaeth Marchnata a Chynhyrchu, at y mandad banc, er mwyn sicrhau nifer ddigonol o bobl sydd â'r awdurdod i lofnodi

- d) **ddilysu**'r cam gweithredu a gymerwyd gan y Cadeirydd i awdurdodi'r Prif Weithredwr i weithredu contractau newydd gyda'r Swyddfa Myfyrwyr.

Adroddiadau ar gyfer Tymor 2 - Yr Adroddiad Monitro Perfformiad (eitem 20b, BD-2018-42)

27. Derbyniodd y Bwrdd yr adroddiad Monitro Perfformiad ar gyfer tymor 2 gan Mrs Rosser. Yn dilyn adolygiad gan y Corff Gweithredol, cofnodwyd bod 11 allan o'r 14 blaenoriaeth ar y trywydd cywir neu wedi'u cyflawni, a bod tri ar ei hôl hi.
28. Ystyriodd y Bwrdd adroddiad Monitro Perfformiad QAA ar gyfer tymor 2.

"Budd y Cyhoedd a Chymru Ffyniannus - y camau nesaf", ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru (eitem 21, BD-2018-43)

29. Cyflwynodd Ms Pelik bapur yn crynhoi'r brif wybodaeth yn yr ymgynghoriad technegol (157 o dudalennau / 100 o gwestiynau) gan Lywodraeth Cymru ar y diwygiadau a gynigwyd ganddi i'r sector hyfforddiant ac addysg ôl-orfodol. Cafodd yr ymgynghoriad ei lansio ym mis Ebrill 2018. Roedd yr ymgynghoriad wedi cadarnhau'r bwriad i sefydlu Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil i Gymru.
30. Dywedodd Ms Pelik fod y weithred o ymateb i'r ymgynghoriad wedi rhoi'r cyfle i QAA roi ei barn arbenigol am y cynigion i Lywodraeth Cymru a chyfrannu at ddatblygu cynigion sy'n ateb anghenion y sector addysg uwch yng Nghymru o fewn system ddiwygiedig o hyfforddiant ac addysg ôl-orfodol.
31. Yn rhan o'r gwaith o lunio ymateb, roedd Pwyllgor QAA Cymru wedi adolygu cwestiynau'r ymgynghoriad a rhoddodd yr Athro Hinfelaar grynodedd llafar i'r Bwrdd o'r pynciau a drafodwyd yn eu cyfarfod diwethaf. Byddai fersiwn drafft o'r ymateb yn cael ei ddsbarthu i aelodau'r Bwrdd cyn ei gyflwyno.

Adroddiad cryno o gyfarfodydd Pwyllgorau'r Bwrdd (eitem 22, BD-2018-44)

32. Derbyniodd ac **ystyriodd** y Bwrdd adroddiad cryno am gyfarfodydd Pwyllgorau'r Bwrdd a gynhaliwyd ers mis Mawrth 2018.

Unrhyw fater arall

Am nad oedd unrhyw fater arall, caeodd y Cadeirydd y cyfarfod.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2018
Rhifau elusen gofrestrdedig 1062746 ac SC037786
www.qaa.ac.uk